Adran 91 ac Adran 93 Deddf Cynllunio 2008

Rheol 13(6), Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010

CAIS AM ORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU

HYSBYSIAD AM WRANDAWIADAU YNGHYLCH Y GORCHYMYN ARFAETHEDIG AR GYFER STORFA BWMP GLYN RHONWY CYFEIRNOD YR AROLYGIAETH GYNLLUNIO: EN010072

1. Hysbysir drwy hyn y bydd gwrandawiadau llawr agored a gwrandawiadau mater penodol yn cael eu cynnal gan yr Awdurdod Archwilio (a benodwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio) ("PINS")) er mwyn archwilio'r cais a gyflwynwyd gan Snowdonia Pumped Hydro Limited ("y Ceisydd") o 1 Finsbury Circus, Llundain EC2M 7SH dan adrannau 14, 15 a 37 o Ddeddf Cynllunio 2008 ("y Ddeddf") ar gyfer Gorchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer cynllun Storfa Bwmp Glyn Rhonwy (y "Cais"). Gwnaed y Cais ar gyfer y Prosiect ar 21ain Hydref 2015 a chafodd ei dderbyn ar gyfer archwiliad ar 17eg Tachwedd 2015 (Cyfeirnod y Cais: EN010072). Mae cynlluniau sy'n dangos y tir y bydd y Prosiect yn effeithio arno yn rhan o ddogfennau'r cais, ac mae modd eu gweld yn y digwyddiadau a nodir isod.

Gwrandawiadau

Dyddiad (2016)	Gwrandawiad	Amser
Dydd Mawrth 17eg Mai	Ail Wrandawiad Mater Penodol i gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: • Adroddiad Dim Effeithiau Sylweddol matricsau sgrinio • Llwybr adeiladu o'r A4085 i Q1 • Effaith gronnus trafnidiaeth gyda'r cysylltiad grid • Ordnans heb eu ffrwydro • Gollyngiadau a difwyno d□r • Hamdden ar lagwnau Llyn Padarn • Cyfyngiadau o ran s□n a dirgrynu • Ffrwydro • Cynllun Archwilio Ysgrifenedig • Amodau caniatâd cynllunio 2012 • Cod Ymarfer Adeiladu • Rhestr o Gynlluniau a Strategaethau Gofynnol Eraill	Cofrestru o 9am ymlaen. Dechrau am 9.30am
Dydd Mawrth 17eg Mai	Ail Wrandawiad Llawr Agored	Cofrestru o 5pm ymlaen. Dechrau am 5.30pm.
Dydd Mercher 18fed Mai	Trydydd Gwrandawiad mater penodol – Gorchymyn Caniatâd Datblygu	Cofrestru o 9am ymlaen. Dechrau
Dydd (2016)		am 9.30am.

2. Cynhelir pob Gwrandawiad yn y lleoliad canlynol: Mynydd Gwefru / Electric Mountain, Llanberis, Gwynedd, LL55 4UR

Y Cais

3. Mae'r Cais yn ymwneud ag adeiladu a gweithredu gorsaf cynhyrchu trydan d□r â storfa bwmp sydd â chapasiti allbwn o 99.9MW (y "Prosiect"). Mae'n cynnwys ardal o 91.24ha a sawl chwarel wag a thomen lechi. Mae'r Prosiect wedi'i leoli ger tref Llanberis yng ngogledd Cymru.

4. Byddai'r GCD, ymysg pethau eraill, yn awdurdodi'r canlynol:
   - un prif bwll (Q1), ei argae, siafft mynediad a gofer i Nant y Betws;
   - un is bwll (Q6), ei argae, siafft mynediad a gofer i Lyn Padarn;
   - gorsaf bwmpio yn Llyn Padarn;
   - pwerdy ar Lwyfan 5 Stad Ddiwydiannol Glyn Rhonwy (i'r de o Q6) gyda neuadd dyrbin o dan y ddaear;
   - llifddor (yn cysylltu Q1 i'r pwerdy); a
   - ffrwd isaf (yn cysylltu'r pwerdy i Q6).

5. Bydd y GCD yn cynnwys darpariaethau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n awdurdodi prynu gorfodol ar dir a hawliau ar dir, os oes angen, er mwyn adeiladu a chynnal y Prosiect.

6. Mae'r prosiect yn ddatblygiad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) at ddibenion Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009. Yn unol â hynny, roedd Datganiad Amgylcheddol yn cyd-fynd â'r Cais.

7. Gellir archwilio copi o'r ffurflen gais a'i dogfennau eraill cysylltiedig, y cynlluniau a'r mapiau am ddim hyd ddydd Iau 8fed Medi 2016 yn y lleoliadau canlynol ac yn ystod yr oriau a nodir isod

Lleoliad a Chyfeiriad	Copi ar gael	Amseroedd Agor
Llyfrgell Llanberis, Ffordd Capel Coch, Llanberis, LL55 4SH	Un copi caled i'w archwilio	Dydd Mawrth 1400-1800, Dydd Iau 1000-1200 a 1300-1700, Dydd Gwener 1400-1800.
Pencadlys Cyngor Gwynedd, Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE	Un copi caled i'w archwilio	Llun-Gwener 0840-1700

8. Mae copïau o'r dogfennau ar gael ar-lein hefyd drwy wefan yr Arolygiaeth Gynllunio yn http://infrastructure.planningportal.gov.uk/projects/wales/glyn-rhonwy-pumped-storage yn ogystal â thrwy wefan y Ceisydd www.snowdoniapumpedhydro.com